Undeb Myfyrwyr PCYDDS
UWTSD Students' Union

CYNLLUN STRATEGOL

2026 - 2029



Cynnwys

Amdanom Ni	03
Gwerthoedd	04
Cenhadaeth a Gweledigaeth	05
Galluogwyr	06
Uchelgeisiau Strategol	07
Cyflawni	08
Mesur	09



Amdanom Ni

Mae pob Undeb Myfyrwyr yn unigryw, ond rydym ni'n arbennig. O nifer o gampysau ar draws Cymru a Lloegr i feysydd pwnc sy'n amrywio o Beirianneg i'r Dyniaethau, prentisiaethau mewn Cyfrifiadura i'r genhedlaeth nesaf o berfformwyr.

Mae'r Undeb Myfyrwyr hwn yn canolbwyntio ar sut y gall rymuso myfyrwyr trwy eu galluogi i roi cynnig ar bethau newydd, datblygu sgiliau, eirioli drostynt eu hunain, lleisio eu barn ar draws gwledydd, llywodraethau a'r Brifysgol, a'u hannog i gael hwyl ar hyd y ffordd.

Nid ydym yn generig ac nid yw ein strategaeth chwaith. Byddwn yn parhau i ymateb i faterion cenedlaethol, byddwn yn arwain myfyrwyr trwy hinsawdd reoleiddio newydd ac yn gwella eu sgiliau wrth wneud hynny. Hynny gyda thîm staff sy'n ymroddedig i greu amgylchedd lle gall pob myfyriwr ffynnu yn PCyDDS.

Yn ogystal â'r strategaeth hon bydd cynllun gweithredu a fydd yn datblygu ymhellach sut y byddwn yn cyflawni'r amcanion. Bydd ein prosesau rheoli perfformiad yn gysylltiedig â chyflawni'r amcanion strategol. Y tu allan i'r prosesau hyn, bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn monitro'r strategaeth yn weithredol gyda diweddariadau'n cael eu darparu ym mhob cyfarfod.

Gwerthoedd

Cryf a Hyblyg

Rydym yn cynrychioli buddiannau myfyrwyr ag ewyllys cryf. Fodd bynnag, byddwn yn hyblyg yn y ffordd rydym yn mynd i'r afael â phroblemau mewn partneriaeth â myfyrwyr.

Agored i her adeiladol

Rydym bob amser yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau ac yn herio ein hunain i fod y gorau y gallwn fod.

Hygyrch

Byddwn yn parhau i fod yn UM y gall unrhyw un deimlo'n rhan ohono, ac yn ei arwain trwy ddull hygyrchedd-yn-gyntaf.



Cenhadaeth

O gofrestru i raddio, rydyn ni yma i bob myfyriwr o'r Brifysgol, ble bynnag a phwy bynnag ydych chi.

Unwaith y bydd myfyriwr yn cofrestru maen nhw'n ymuno â ni. Rydyn ni yna gyda nhw bob cam o'r ffordd nes iddyn nhw raddio, waeth ble maen nhw'n astudio neu sut maen nhw wedi dod i astudio yn y Drindod Dewi Sant.

Gweledigaeth

Erbyn 2029 byddwn ni'r Undeb Myfyrwyr mwyaf effeithiol yng Nghymru, gan allu mynegi sut rydym wedi gwella bywydau myfyrwyr trwy'r profiadau maen nhw'n eu rhannu â ni.

Byddwn yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau tra byddant yn y Brifysgol y gallant eu defnyddio ar ôl graddio i fod yn wydn, yn canolbwyntio ar gynaladwyedd, a hyd yn oed yn fwy cyflogadwy. Bydd ein data ar effaith yn dangos sut rydym yn cyflawni'r tu hwnt i'n cymheiriaid i wella bywydau myfyrwyr yn PCyDDS.



Galluogwyr

Is-strategaeth Pobl a Diwylliant

Our staff team being the right people; in the right roles supported to be the best they can for students.

Is-Strategaeth Marchnata a Masnacheiddio

Cyfathrebu'r tu hwnt i'n brand. Dangos pwy ydym ni trwy gysylltiad pwerus â'n myfyrwyr. Creu cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu incwm.

Is-Strategaeth Prosesau ac Offer

Defnyddio offer fel deallusrwydd artiffisial i leihau'r baich gweinyddol ar ein tîm staff gan ystyried hefyd sut y gallwn symleiddio prosesau y mae aelodau'n ymwneud â nhw.



Uchelgeisiau Strategol

Grymuso Myfyrwyr

Byddwn yn cyflawni effaith *gyda* Myfyrwyr.

Cyflwyno'n Unigryw

Byddwn yn adeiladu ar ein llwyddiannau trwy gyflawni mewn *ffordd unigryw*.

Gwrando ar ein Haelodau a'u Deall

Mae gan bob myfyriwr ei stori ei hun ac mae'r Undeb eisiau gwrando, clywed a dathlu gyda'r straeon hynny. Gwreiddio profiadau mewn *gwneud penderfyniadau*.



Sut y byddwn yn mynd ati i gyflawni'r cynllun strategol...

	Llais Myfyrwyr	Cyfleoedd Myfyrwyr	Cyngor i Fyfyrwyr
Grymuso Myfyrwyr	Bydd atebolrwydd swyddogion myfyrwyr yn cael ei hwyluso trwy dîm llais y myfyrwyr.	Byddwn yn ailddatblygu ein prosesau a systemau o fewn Cyfleoedd fel eu bod dan arweiniad myfyrwyr a lleihau'r baich gweinyddol.	Datblygu hunanwasanaeth ymhellach, lle gall myfyrwyr ddeall eu hawliau, eu dewisiadau a'u galluoedd.
UM Unigryw	Wedi'i seilio ar y gymuned Bydd hyfforddiant Cynrychiolwyr Cwrs yn parhau i fod y gorau yn y sector.	Bydd wythnos sgiliau wedi'i gwreiddio ar draws pob safle fel rhan o'r amserlen academaidd. Byddwn yn cefnogi myfyrwyr i deimlo'n fwy cysylltiedig â'r sgiliau maen nhw'n eu datblygu ac yn gallu eu mynegi'n well.	Bydd ein harfer sy'n seiliedig ar waith achos ynghyd â gweithdai rhagweithiol a grymuso myfyrwyr yn golygu dull trionglog o roi cyngor i fyfyrwyr.
Gwrando ar aelodau a'u deall	Bydd tîm llais y myfyrwyr yn parhau i ymgorffori llais y myfyrwyr mewn prosesau ac yn esblygu sut mae'n cyflawni ar gyfer myfyrwyr, a gyda nhw.	Bydd ein digwyddiadau a'n gweithgareddau o fewn Cyfleoedd Myfyrwyr yn ddeinamig eu natur. Byddant yn ymateb mewn ffordd fwy ystwyth i ddymuniadau ac anghenion myfyrwyr.	Trwy arolygon ymadael, ynghyd â Chynllun Ymgysylltu â Myfyrwyr y Brifysgol bydd y gwasanaeth yn adlewyrchu anghenion demograffig myfyrwyr.

Sut y byddwn yn mesur ein llwyddiant...

	2027	2028	2029
Grymuso Myfyrwyr	Bydd 60% o fyfyrwyr yn dweud wrthym trwy ein harolygon boddhad eu bod wedi cael eu grymuso gan brosiectau a gyflwynir trwy Gyfleoedd Myfyrwyr.	Bydd 70% o fyfyrwyr yn dweud wrthym trwy ein harolygon boddhad eu bod yn cael eu grymuso gan brosiectau a gyflwynir trwy Gyfleoedd a Chyngor.	Bydd 80% o fyfyrwyr yn dweud wrthym trwy ein harolygon boddhad eu bod wedi cael eu grymuso gan brosiectau a gyflwynir trwy Gyfleoedd, Cyngor a Llais.
UM Unigryw	Bydd 95% o fyfyrwyr a ddefnyddiodd y gwasanaeth cynghori yn dweud wrthym eu bod wedi gallu parhau yn y Brifysgol oherwydd ein cymorth ni.	Bydd 97% o fyfyrwyr a ddefnyddiodd y gwasanaeth cynghori yn dweud wrthym eu bod wedi gallu parhau yn y Brifysgol oherwydd ein cymorth ni, ynghyd â mesurau ymgyrchoedd ataliol. Cynnydd o 30% yn nifer y myfyrwyr a gymerodd ran yn Wythnos Sgiliau (o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol) ynghyd â 10% o'r mynychwyr yn dychwelyd yn ystod y cylchred Wythnos Sgiliau canlynol.	Bydd 97% o fyfyrwyr a ddefnyddiodd y gwasanaeth cynghori yn dweud wrthym eu bod wedi gallu parhau yn y Brifysgol oherwydd ein cymorth ni, ynghyd â mesurau ymgyrchoedd ataliol. Bydd undeb y myfyrwyr yn cael ei gydnabod gan fyfyrwyr fel un o' rhai gorau yn y sector o ran ei ddarpariaeth o wythnos sgiliau a gwasanaethau, gyda 15% o'r mynychwyr yn dychwelyd yn ystod y cylchred Wythnos Sgiliau canlynol.
Gwrando ar aelodau a'u deall	Bydd 83% o fyfyrwyr yn dweud bod undeb y myfyrwyr yn cynrychioli eu buddiannau academaidd yn effeithiol yn yr ACF.	Bydd 87% o fyfyrwyr yn dweud bod undeb y myfyrwyr yn cynrychioli eu buddiannau academaidd yn effeithiol yn yr ACF. Bydd 70% o aelodau pwyllgorau'n dweud ein bod wedi gwrando ar eu hadborth ac wedi gwneud newidiadau o fewn y gwasanaeth Cyfleoedd.	Bydd 90% o fyfyrwyr yn dweud bod undeb y myfyrwyr yn cynrychioli eu buddiannau academaidd yn effeithiol yn yr ACF. Bydd sylwadau testun rhydd o fewn yr ACF yn tynnu sylw at sut mae llais, cyfleoedd a chyngor wedi cefnogi'r sgôr.

Undeb Myfyrwyr PCYDDS

UWTSD Students' Union

www.uwtsdunion.co.uk
su@uwtsd.ac.uk

uwtsdunion

Mae Undeb Myfyrwyr y Drindod Dewi Sant yn Elusen Gofrestredig yn Lloegr a Chymru (1157951) ac yn Gwmni Cyfyngedig trwy Warant (09103924)

